Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2012

## 14.00-15.30, Ystafell Gynadledda 4B

Yn bresennol:
Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)
Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)
Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)
Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)
Dave Tosh (Cyfarwyddwr TGCh)
Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)
Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)
Sulafa Thomas (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)
Mike Snook (Pennaeth Ystadau a Chyswllt Cyntaf Dros Dro)
Anna Daniel (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr)
Lynne Flux (Pennaeth Archwilio) – *ar gyfer eitem 6 yn unig*
Kerry Dearden (Uwch-swyddog Ymchwil) – *yn cysgodi*
Tanwen Summers (Ysgrifenyddiaeth)

1.0 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi), Sian Wilkins (Pennaeth Deddfwriaeth), Craig Stephenson (Pennaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau) a Virginia Hawkins (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad Dros Dro).

1.2 Croesawodd y Bwrdd Kerry Dearden i'r cyfarfod fel rhan o'r cyfle i staff gysgodi Claire Clancy.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2.0 Cyfathrebu â staff

2.1 Cytunodd Dianne Bevan i ddrafftio nodyn ar drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion gan mai hwn

fyddai ei chyfarfod olaf o'r Bwrdd Rheoli cyn gadael y sefydliad.

2.2 Nododd y Bwrdd arddull gwahanol y nodyn cyfathrebu diwethaf, a ddrafftiwyd gan Anna Daniel, gan nodi'r dull mwy personol a ddefnyddiwyd ganddi yn y nodyn.

3.0 Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 a 25 Mehefin 2012

3.1 Dosberthir a chytunir ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2012 y tu allan i'r Bwrdd Rheoli.

3.2 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2012 yn gofnod cywir.

4.0 Materion yn codi

4.1 Ni chodwyd unrhyw faterion gan y Bwrdd.

Trafodaeth ar fusnes o bwys

5.0 Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am Gomisiwn y Cynulliad

5.1 Nododd y Bwrdd y cynhelir cyfarfod strategaeth y Comisiwn ar 2 Awst 2012 i drafod blaenoriaethau a ffyrdd o weithio.

5.2 Bu'r Bwrdd yn trafod rôl Comisiynwyr wrth bennu cyfeiriad strategol y sefydliad a dwyn y Bwrdd Rheoli i gyfrif.

5.3 Bu'r Bwrdd yn trafod:

- y trefniadau ar gyfer agendâu cyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad ac yn ystyried a oes gan y Comisiynwyr ddigon o ryddid i drafod pynciau amrywiol, ac i ymchwilio'n fwy manwl i syniadau, gyda chefnogaeth y Tîm Rheoli;

- pa mor bwysig ydyw i Gomisiynwyr gymryd perchenogaeth dros ein cyfeiriad yn gyffredinol;

- pa gymorth y dylid ei roi i Gomisiynwyr i'w galluogi i ymgysylltu'n llawn ag Aelodau, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch syniadau y mae'r Comisiwn yn eu datblygu;

- y cymorth a roddir i'r Comisiynwyr yn ystod camau cyntaf prosiect / buddsoddiad, a'r broses o symud ymlaen gyda darparu mentrau;

- pa mor bwysig yw ein perthynas â'r Comisiynwyr, addasu ein dulliau gweithredu i bob Comisiynydd, ac ansawdd ein gwaith a sut y caiff ei ddarparu ar eu cyfer;

- mantais y drefn bod Comisiynwyr yn gweithio'n uniongyrchol â staff yn hytrach na bod materion yn cael eu cyfeirio drwy'r Bwrdd Rheoli, yn rhannol er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'n gwaith;

- dulliau o ddarganfod diddordebau penodol Comisiynwyr y tu allan i gyfarfodydd y Comisiwn, o bosibl wrth i dimau bach o staff weithio'n uniongyrchol â Chomisiynwyr i ddatblygu syniadau mewn rôl debyg i "rapporteur".

5.4 Cytunodd y Bwrdd y byddai'r drafodaeth yn ddefnyddiol wrth baratoi ar gyfer cyfarfod strategaeth y Comisiwn, sydd i'w gynnal ar ddechrau mis Awst, ac y byddent yn ystyried rhai o'r syniadau eto yn yr hydref.

Eitemau i'w trafod yn fyr

6.0 Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol

6.1 Cyflwynodd Lynne Flux yr adroddiad er gwybodaeth i'r Bwrdd.

6.2 Bu'r Bwrdd yn trafod y rhaglen dreigl o adolygiadau, a nododdflaenoriaethau y flwyddyn nesaf ar gyfer cadw'r momentwm yn y meysydd y mae angen mynd i'r afael â hwy, ac i gyflawni prosiectau penodol. Nododd y Bwrdd hefyd y cynhelir asesiad o effeithiolrwydd y gwaith Archwilio Mewnol ei hun yn y dyfodol.

6.3 Trafododd y Bwrdd ffyrdd o rannu gwaith archwilio a chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn fwy eang â staff, ac awgrymwyd y dylai Lynne fynychu cyfarfodydd tîm ac y dylai eitemau misol / chwarterol ymddangos ar dudalen newyddion y fewnrwyd. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog agwedd fwy cadarnhaol fyth tuag at archwilio.

6.4 Nododd y Bwrdd y datganiad llywodraethu ar gyfer 2011-12, sydd wedi'i symleiddio, ond cytunodd y dylid cymryd camau ychwanegol eleni i sicrhau bod y broses yn ddigon cynhwysfawr a phendant.

CAM GWEITHREDU: Lynne i ddosbarthu'r Cynllun Archwilio, sydd wedi'i seilio ar y Gofrestr Risg, er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyfrannu mwy ato.

7.0 Risgiau Corfforaethol

7.1 Gofynnwyd i'r Bwrdd ganolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â sylw yn y cyfryngau i'r defnydd o adnoddau'r Cynulliad.

7.2 Cytunodd y Bwrdd fod angen sicrhau bod gan Aelodau ddealltwriaeth glir o ble y mae arian yn cael ei wario a'i bod yn hanfodol ein bod yn hyderus yn ein sefyllfa, a'n bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth gadarn i gefnogi ein penderfyniadau os oes angen.

7.3 Cytunodd y Bwrdd y dylai'r risg mewn perthynas â lobïo a chefnogaeth i grwpiau trawsbleidiol gael ei thynnu o'r gofrestr bellach.

7.4 Bu'r Bwrdd yn trafod mater a gododd yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon yn ddiweddar, pan oedd llifogydd wedi torri'r cyflenwad trydan, a barodd am nifer o ddyddiau. Hefyd trafodwyd ein problemau TGCh diweddar ni ein hunain, lle collwyd cymwysiadau lleol am gyfnod. Cytunodd y Bwrdd fod angen cynnal profion ymarferol ar ddiffygion o'r fath, ac y dylai Claire geisio cael adborth ar wersi a ddysgwyd, gan y Prif Weithredwr yng Ngogledd Iwerddon.

CAM GWEITHREDU: Claire Clancy a Steve O'Donoghue i drafod ffyrdd newydd o gyflwyno'r gofrestr Risgiau Corfforaethol.

CAM GWEITHREDU: Y Bwrdd Rheoli i gynnal trafodaeth fanwl ar wella parhad busnes yn yr hydref.

8.0 Y rhaglen fuddsoddi

8.1 Cytunodd Steve O'Donoghue i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli a drefnwyd ar gyfer 26 Gorffennaf 2012.

8.2 Nododd y Bwrdd y byddai cyfarfod cyntaf yr is-bwyllgor ar y rhaglen fuddsoddi yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl.

9.0 Byrddau Cynghori Staff

9.1 Nododd y Bwrdd fod y bwrdd Cyfathrebu Mewnol a'r bwrdd Rheoli Perfformiad wedi cyfarfod a'u bod ar hyn o bryd yn trafod y prif feysydd yr oedd angen canolbwyntio arnynt a sut i fynd i'r afael â'r meysydd hynny.

9.2 Cytunodd y Bwrdd y dylid paratoi eitem ar gyfer y dudalen newyddion er mwyn annog diddordeb yng ngwaith yr holl grwpiau ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y cynnydd a wnaed.

CAM GWEITHREDU: Steve O'Donoghue a Non Gwilym i adrodd yn ôl yn llawn i'r Bwrdd ym mis Medi.

Cloi'r cyfarfod

10.0 Unrhyw fater arall

10.1 Nid oedd materion eraill i'w trafod.

Ysgrifenyddiaeth

Gorffennaf 2012